***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 3364

# Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2009

## RHAN 2

## Dyfeisiau adnabod

**Cymeradwyo dyfeisiau adnabod**

**5.** Rhaid i ddyfeisiau adnabod a ddefnyddir i gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn fod o fodel a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru.

**Tagiau ychwanegol a dyfeisiau adnabod â gwybodaeth ychwanegol**

**6.**—(1) Ar gais ceidwad, caiff gweithgynhyrchydd dyfeisiau adnabod, yn ddarostyngedig i erthygl 6(2), ychwanegu gwybodaeth atodol at ddyfais adnabod neu ddyfais amnewid ar yr amod—

(a) bod yr wybodaeth atodol yn gwbl wahanol i'r cod adnabod; a

(b) bod y cod adnabod yn parhau'n ddarllenadwy ac y gellir ei weld yn eglur bob amser.

(2) Caiff ceidwad osod tag ychwanegol ar anifail ond rhaid iddo beidio â chynnwys y llythrennau "UK" na dwyn nod diadell neu nod geifre, onid awdurdodir hynny gan Weinidogion Cymru.

**Lliw dyfeisiau adnabod**

**7.**—(1) Rhaid i bob dyfais adnabod, heblaw dyfeisiau amnewid a bolysau, fod yn felyn ac ni chaiff ceidwad osod dyfais adnabod felyn nad yw'n electronig.

(2) Ni chaiff neb osod dyfais adnabod goch ar unrhyw anifail, heblaw dyfais adnabod amnewid.

(3) Pan fo ceidwad yn ailadnabod anifail ac nad yw'r anifail hwnnw ar ei ddaliad genedigol, neu pan nad yw'r ceidwad yn gwybod y daliad genedigol, rhaid iddo ddefnyddio dyfais adnabod amnewid goch ond nid yw'r gofyniad bod rhaid defnyddio dyfais adnabod goch yn gymwys i ddefnyddio bolysau.

(4) Pan adnabyddir anifail drwy gyfrwng bolws ac ail ddyfais adnabod rhaid i'r ail ddyfais honno fod yn ddu a dim ond mewn cyfuniad â bolws y caniateir defnyddio dyfais adnabod ddu.

(5) Rhaid i'r cymeriadau ar bob dyfais adnabod fod o liw gwahanol i gefndir y ddyfais a bod yn eglur i'w darllen bob adeg pan fo'r ddyfais wedi'i gosod ar anifail.

**Dinistrio dyfeisiau adnabod**

**8.**—(1) Rhaid i weithredydd lladd-dy, iard nacer, cynel helfa neu safle rendro ac unrhyw berson arall sy'n cael gwared yn derfynol ar garcas anifail sydd wedi'i adnabod ddinistrio mewn modd diogel sy'n atal eu hailddefnyddio bob dyfais adnabod ar anifeiliaid y maent yn eu cigydda neu'n cael gwared arnynt mewn modd arall.

(2) Mae dinistrio diogel yn cynnwys rendro unrhyw ddyfais adnabod.